# Ysbyty Cygnet Kewstoke

## Gwybodaeth i Ymwelwyr

Nid oes gan Ysbyty Cygnet Kewstoke amserau ymweld penodol, ond rydym yn gofyn i chi drefnu ymweliadau gyda'r ward ymlaen llaw.

Mae angen i ymwelwyr fod yn ymwybodol na chaniateir plant ar y wardiau ond gallwn gynnig ystafelloedd ymweld i ffwrdd o'r ward i hwyluso ymweliadau â chleifion.

Rydym yn cadw'r hawl i chwilio ymwelwyr os credwn y gallent fod yn dod â phethau amhriodol i mewn.

Ni allwch ddod â rhai eitemau, fel alcohol, moddion ac eitemau miniog, i'r ysbyty. Pan gyrhaeddwch, byddwn yn gofyn i chi a ydych yn cario eitemau o'r fath ac, os felly, byddwn yn gofyn i chi eu gadael yn eich car neu yn y dderbynfa.

Ffoniwch ni i gael rhagor o wybodaeth am ymweld â chleifion.

## Sut i gael hyd i ni

**Mynedfa 1 – Maes Parcio Ymwelwyr a Staff**

**Mynedfa 2 – Maes Parcio i'r Anabl, Derbyniadau Ysbyty, Gollwng/Casglu yn unig**

Nodwch fod y llefydd parcio trwy Fynedfa 2 ar gyfer personél anabl a derbyniadau ysbyty yn unig. Dylai pob ymwelydd ac aelod staff ddefnyddio Mynedfa 1 i gyrraedd y maes parcio. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i chi gerdded ychydig i fyny llethr serth i gyrraedd adeilad yr ysbyty. Os oes gennych broblemau symudedd, ffoniwch ni ar 01934 428989 er mwyn i ni wneud unrhyw drefniadau angenrheidiol i fodloni'ch dymuniadau.

## Cyfarwyddiadau teithio mewn car

Gadewch yr M5 wrth Gyffordd 21, a dilyn yr arwyddion i Weston-super-Mare.
Cymerwch y troad cyntaf ar y chwith oddi ar y ffordd ddeuol i Worle, Sand Bay a Kewstoke.
Trowch i'r dde i Queens Way, a dilyn yr arwyddion i Kewstoke a Sand Bay.
Yn Queens Way cadwch i fynd yn syth ymlaen, a mynd trwy dair cylchfan.
Wrth i chi ddod i bentref Kewstoke (lonydd gwledig), dilynwch yr arwyddion i Neuadd Bentref Kewstoke (Lower Norton Lane).
Wrth y gyffordd T (swyddfa bost binc gyferbyn), trowch i'r dde i Crookes Lane, a pharhau i'r gyffordd T nesaf, trowch i'r chwith i Beach Road.
I gyrraedd Mynedfa 1 Ysbyty Cygnet Kewstoke ewch heibio i Care Free Holiday Homes ar y chwith. I gyrraedd Mynedfa 2, parhewch ar hyd Beach Road heibio i'r Commodore Hotel ac mae'r fynedfa i'w gweld tua chanllath i fyny'r bryn ar y chwith.

- Adroddiadau traffig amser real gan Frixo

**Cyfarwyddiadau teithio ar y trên**

Gwasanaethir yr ysbyty yn dda gan drenau lleol o Bristol Temple Meads i Weston-super-Mare. Mae'r daith yn cymryd oddeutu 30 munud. Mae trenau yn gweithredu bob 20-25 munud.
O orsaf Weston-super-Mare mae gwasanaeth bws lleol i Sand Bay/Kewstoke ac mae tacsis ar gael hefyd.

**Cyfarwyddiadau teithio ar y bws**

Gwasanaethir yr ysbyty yn dda gan fysiau lleol. Mae bws Rhif 1 yn gweithredu o orsaf drenau Weston-super-Mare i Sand Bay. Mae bysiau yn gweithredu bob awr gyda'r bws olaf i Sand Bay am 6.08pm.




I weld ein lleoliad gyda Mapiau Gwgl, cliciwch yma